PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 8 MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),<br>Y Cynghorwyr Cunnah, Hopkins, Melbourne, Molik, Phillips a/ac Mia Rees<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)<br><br>Mai John (Cynrychiolydd Cyngor Ieuenctid Caerdydd) |

Dymuna'r Cadeirydd ddiolch i bawb fu'n rhan o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc dros y pum mlynedd diwethaf am eu gwaith caled, eu cefnogaeth a'u hymroddiad dros y cyfnod hwnnw. Ategodd Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, Y Cynghorydd Merry y sylwadau hynny yn ei datganiad.

127 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Heather Joyce.

128 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Mike Phillips fuddiant personol yn Eitem 5 gan fod ei ferch ar y sbectrwm awtistig ac yn derbyn cyllid gan yr Awdurdod. Datganodd Karen Del'Armi fuddiant personol yn Eitem 5 hefyd fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Llanisien.

129 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror fel cofnod cywir fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Robert Hopkins ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Mia Rees.

130 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: TREFNIADAU DERBYN 2023/2024

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) a Jennie Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad, Cynhwysiant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad, pan gadarnhaodd natur yr adroddiad; adroddiad blynyddol sy'n destun ymgynghoriad bob blwyddyn a bydd yn dod i rym ym mis Medi 2023. Nodwyd y bydd Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yn dod yn rhan o'r cynllun derbyniadau cydlynol o fis Medi 2023.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd pob ysgol ffydd yn rhan o'r cynllun derbyniadau cydlynol a dywedwyd wrthynt fod dwy ysgol uwchradd nad oeddent eto'n rhan o'r cynllun er bod cytundeb wedi'i dderbyn gan un o'r ysgolion hynny ac y byddai trafodaethau gyda'r llall yn digwydd yn fuan. O ran ysgolion cynradd, roedd llond llaw o ysgolion nad oeddent yn rhan o'r cynllun eto. Nododd yr Aelodau mai Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am y penderfyniad terfynol.

- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am 'symudiadau wedi'u rheoli' disgyblion a'r adolygiad o ddalgylchoedd. Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â symudiadau wedi'u rheoli wedi newid, ond mae protocol mynediad teg ar waith sy'n caniatáu trefniadau, lle mae ysgolion yn llawn, lle gallant dderbyn disgyblion uwchben y nifer derbyn cyhoeddedig hwnnw mewn amgylchiadau arbennig o heriol. Cadarnhaodd swyddogion, er bod angen adolygu dalgylchoedd ysgolion, fod angen datrys lleoedd Band B yn y lle cyntaf, nid oes dyddiad ar gyfer gwneud hynny wedi'i bennu eto ond bydd yn digwydd cyn gynted ag y bo modd.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) gan ofyn a oedd y ddarpariaeth ar gyfer y rhai ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu a fydd ar gyfer y rhai â datganiad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr un trefniadau'n berthnasol i'r rhai sydd â datganiadau cyn belled â bod y datganiadau hynny'n dal i fodoli. Byddant yn cael eu trosi'n Gynlluniau Datblygu Unigol maes o law, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto pryd mae hynny'n debygol o ddigwydd. Mae'r cod ADY newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar bob ysgol yn gwneud cynnig cynhwysol da, felly yn y mwyafrif o achosion ni fyddai angen i chi enwi ysgol mewn CDU; gallai'r Awdurdod Lleol wneud hynny mewn amgylchiadau eithriadol, ond disgwylir y byddai hynny'n bennaf ar gyfer plant a oedd angen mynychu ysgol ag adnoddau. Ni fydd gwahaniaeth rhwng yr hyn a arferai fod yn gweithredu gan yr ysgol ac ar ddatganiad; mae'n ddull cyfartal i bawb. Mae'r polisi derbyn yn cwmpasu'r ddwy system, oherwydd y cyfnod pontio presennol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 131 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU CYMHLETH A CHYFLWR SBECTRWM AWTISTIAETH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) a Jennie Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad, Cynhwysiant) i'r cyfarfod.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Rhaglen ddatganiadau yn cadarnhau bod canlyniad yr ymgynghoriad wedi bod yn gymharol gadarnhaol ar y cyfan gyda chydnabyddiaeth glir bod angen cyflwyno'r cynigion.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch cyllid ac a fydd y cynigion yn cael eu cyflwyno. Esboniodd swyddogion o ran y cynigion adeiladu a amlinellwyd, fod pob un ohonynt un ai ar safle sy'n bodoli neu'n rhan o brosiect sefydledig. Mae ardaloedd wedi'u nodi er mwyn i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno. Mae wedi'i chynnwys fel rhan o'r rhaglen asedau ehangach. Ni fydd rhai yn eu lle ar gyfer Medi 22 ond byddant yn eu lle heb fod yn hir ar ôl hynny. Nid oes unrhyw risg sylweddol â'r prosiectau.

  Holodd yr aelodau faint o leoedd fyddai ar gael ym mis Medi 22. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cytundebau dros dro ar waith lle'r oedd angen hynny, ond mae rhai o'r rhain a gynlluniwyd ar gyfer Medi 2023 wedi'u hystyried ochr yn ochr â gwaith cynllunio y tu allan i'r sir. Doedd dim cynlluniau i'r holl leoedd fod wedi eu hariannu a'u llenwi erbyn Medi 22.

- O ran cyllid a thrafnidiaeth, nid yw'r gwaith modelu o ran y tu allan i'r sir a'r sefyllfa drafnidiaeth wedi'i threfnu'n llawn hyd yn hyn. Mae'n fforddiadwy o fewn y gyllideb ddirprwyedig ar hyn o bryd ond nid yw'r gwaith modelu wedi'i gwblhau'n llawn. Bydd angen gweld a fydd yr holl brosiectau'n cael eu datblygu. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi helpu gyda'r wybodaeth hon. Y gobaith yw y bydd lledaeniad o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws y ddinas. Yna byddai disgwyl i'r costau trafnidiaeth ar draws y ddinas fesul disgybl leihau. Nid dyma'r sefyllfa derfynol.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad mewn perthynas â chynnwys rhieni wrth leoli plant ag ADY i helpu i sicrhau nad oedd ysgolion yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros y plant hynny yn hytrach na'u cadw mewn addysg prif ffrwd. Dywedodd swyddogion nad yw plant ag ADY yn cael eu rhoi mewn lle arbenigol yn ddiofyn. Caiff lleoliadau arbenigol eu hystyried dim ond os na ellir darparu ar gyfer y plant yn yr ysgol. Ymgynghorir yn agos â'r rhieni;
  mae ganddynt yr hawl i wneud sylwadau ar leoliad. Gallai nifer o blant gael eu lleoli yn y naill neu'r llall a byddai barn y rhieni'n cael ei flaenoriaethu.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at nifer o'r ymatebion a gododd rai cwestiynau am gapasiti staffio a lefelau sgiliau a'r angen am hyfforddiant gan holi pa waith blaengynllunio sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod gan staff y lefel gywir o sgiliau ac y byddant yno mewn modd amserol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda phenaethiaid ysgolion arbennig; bydd gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion yn unigol gan y bydd gan ysgolion heriau gwahanol. Mae angen dull wedi'i deilwra ar gyfer pob un o'r cynigion. Ni fydd pob lle yn cael ei lenwi ar yr un pryd, felly bydd staff yn cael eu lleoli fesul cam hefyd. Bydd angen i ysgolion fod yn cyflogi ac yn datblygu mwy o staff arbenigol dros y blynyddoedd nesaf.

- Cyfeiriodd yr aelodau hefyd at yr ymatebion gan y sector cyfrwng Cymraeg; yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn ffafriol ond roedd llawer o ymatebion yn codi'r mater nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg wedi cael ei datblygu i'r un graddau, a'r diffyg llwybr clir i rieni o'r cyfnod sylfaen i'r ysgol uwchradd. Gall hyn arwain at lawer yn dewis gadael addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod cynnig Glantaf yn allweddol. Mae'n uchelgeisiol iawn a bydd yn

gwthio'r ddinas ymlaen yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwybodaeth am gyllid mewn perthynas â hynny. Nid yw hyn yn gyfystyr â chyfres derfynol o gynigion, ond yn hytrach sicrhau bod pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Mae angen adeiladu darpariaeth CAA cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd hefyd. Mae opsiynau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Pan gyflwynwyd y CSCA roedd ymrwymiad i hanner yr ysgolion fod yn rhai Cymraeg; disgwylir y bydd yna ddarpariaeth CAA yn yr ysgolion hynny hefyd. Bydd yn tyfu dros amser wrth i'r CSCA ddatblygu.

- Dywedodd yr aelodau y soniwyd sawl gwaith nad dyma oedd cam olaf y broses; mae cyfeiriad at bapur opsiynau terfynol a gwerthusiad ariannol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oes graddfeydd amser penodol ar hyn o bryd ond byddant yn cael eu rhoi at ei gilydd dros y misoedd nesaf.

- Holodd yr Aelodau sut y byddai'r broses bontio'n cael ei rheoli pan fyddai darpariaeth CAA yn cael ei rhoi mewn ysgolion nad oes ganddynt y math hwnnw o ddarpariaeth ar hyn o bryd. O ran diffyg CAA yn yr ysgolion sydd wrthi'n ystyried rhoi darpariaeth, sut mae hynny'n mynd i gael ei reoli a sut ydych chi'n mynd i reoli'r broses bontio honno? Dywedodd swyddogion na fydd datblygiad Ysgol y Court yn y Tyllgoed yn rhan o'r adeilad ysgol presennol, bydd yn adeilad newydd ar yr un safle ac ni fyddai'r ysgol na'r plant yn trosglwyddo tan yr oedd yr ysgol yn barod ar eu cyfer. Yna byddai lleoedd ychwanegol a fyddai'n tyfu dros amser. Ni ddisgwylir i'r prosiect hwnnw gael ei gyflawni am ychydig flynyddoedd eto gan ei fod yn brosiect adeiladu mawr. Mae Ysgol y Court yn rhan o Fand B, y cynhelir ymarfer gweledigaeth lawn arno, nid gwaith ehangu'n unig yw e'.

- Holodd yr Aelodau am sylw ynghylch bod y ddarpariaeth ADY yn cael ei rhoi mewn ardaloedd yng Nghaerdydd lle mae'r boblogaeth yn wyn yn bennaf; mae'r sylw yn haeddu ychydig o feddwl am anghenion y gymuned BAME ac a yw hynny'n ychwanegu lefel arall o faterion adnoddau i'w hystyried cyn bod y lleoedd yn cael eu cynnig. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad dyma'r gyfres derfynol o gynigion, mae cynlluniau mewn rhai ardaloedd yn dal i gael eu hystyried, yn enwedig yn nalgylch Fitzalan. Mae swyddogion yn credu eu bod wedi cyflwyno cymysgedd da. Mae rhai ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd eraill hefyd. Mae'n bwysig cael y lledaeniad ar draws y ddinas; dyma'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno ar unwaith ond bydd eraill yn cael eu cyflwyno maes o law.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 132 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION IECHYD A LLES EMOSIYNOL.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) a Jennie Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad, Cynhwysiant) i'r cyfarfod.

Darparwyd datganiadau gan yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Rhaglen; yn gyntaf yn nodi fod yr adroddiadau yn dangos bod yr Awdurdod Lleol wedi cymryd sylw o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori; ac yn ail mai'r argymhelliad yw bwrw ymlaen â'r cynnig craidd. O ran cynnig Greenhill, bydd rhagor o ystyriaeth ar rai o'r sylwadau a wnaed, a bydd adroddiad pellach yn dod yn ôl i'r Pwyllgor yn ddiweddarach. Yn bennaf, roedd y sylwadau hynny'n cyfeirio at safle'r Dutch Garden Centre ac yn enwedig o ran agosrwydd y gyffordd. Mae yna atebion dylunio, ond mae angen cael y cydbwysedd yn gywir gan mai ysgol yw e', ac i beidio ag edrych fel carchar. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn gysylltiedig â'r safle a'r ddarpariaeth sydd yno.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau:

- Cyfeiriodd yr aelodau at y cyfleusterau oedd yn cael eu datblygu ar Safle'r Dutch Garden Centre a safle Tŷ Glas yn Llanisien, a nodwyd bod y cyfleusterau'n wahanol iawn. Holodd yr aelodau sut y byddai myfyrwyr ar safle Tŷ Glas yn cael mynediad i gyfleusterau safle'r Dutch Garden Centre. Eglurwyd y byddai ymarfer gweledigaeth a fyddai'n mapio beth fyddai'r cysylltiadau; a fyddai disgyblion ar un safle neu'r llall ar gyfer eu haddysg gyfan neu ran ohoni; a sut y byddai hynny'n ystyried darpariaeth oddi ar y safle. Nid yw'r broses honno wedi dechrau eto, roedd angen yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn y lle cyntaf. Byddai hynny'n digwydd mewn unrhyw brosiect Band B.

  Holodd yr Aelodau am ymateb Estyn mewn perthynas â darpariaeth CAA Ysgol Uwchradd y Dwyrain a Choleg Cymunedol Gorllewin Caerdydd; roedden nhw'n ymddangos yn wyliadwrus ynghylch galwadau ar Orllewin Caerdydd ar yr adeg hon. A yw'r ddarpariaeth yn mynd i gael ei datblygu dros gyfnod o amser i ganiatáu i'r coleg ddarparu ar ei chyfer a sefydlu'r ddarpariaeth mewn ffordd gynlluniedig? Dywedodd Karen Del'Armi, Cadeirydd Llywodraethwyr Gorllewin Caerdydd wrth yr aelodau fod y Corff Llywodraethu'n cefnogi'r gwaith o sefydlu'r CAA ac yn ei ystyried yn faes ar gyfer twf, er y gallai gofod ffisegol fod yn broblem, sydd wedi'i drafod gyda swyddogion, staff a myfyrwyr. Mae'n bwysig sicrhau bod yr elfennau diogelu ac iechyd a diogelwch yn iawn.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 133 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: EHANGU AC AILDDATBLYGU YSGOL GYNRADD PENTYRCH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Melanie Godfrey (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes), Richard Portas (Cyfarwyddwr Rhaglen, Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion) a Jennie Hughes (Uwch Arweinydd Cyflawniad, Cynhwysiant) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Rhaglen ddatganiadau. Er bod yr ymatebion yn gefnogol ar y cyfan, codwyd mater gan feithrinfa nas cynhelir. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â sut y gallai'r ddwy feithrinfa gydweithio.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau.

Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

## 134 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddodd Alison Jones, y Prif Swyddog Craffu ddiweddariad gohebiaeth, diweddariad ar ganfyddiadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a gwybodaeth mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol Craffu drafft i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r diweddariad gohebiaeth;
(2) nodi'r ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer coladu canfyddiadau ac argymhellion hyd yma o ran ymchwiliad y Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen i Opsiynau Strategol y CDLl Newydd; a
(3) cymeradwyo tudalen Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc drafft Adroddiad Blynyddol Craffu 2021/2022 ac amlygu cyflawniadau mwyaf y pwyllgor i'w cynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

## 135 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o broblemau y cytunai'r Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

## 136 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys yn y cyfarfod.

## 137 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y Cyngor yn cytuno ar ddyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ei gyfarfod blynyddol ym mis Mai 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm